Corff Sylfaen Pêl-droed Cymru
Parc y Ddraig,
Pentref Chwaraeon
Rhyngwladol Casnewydd,
Casnewydd
NP19 4RA

Cymru Football Foundation
Dragon Park,
Newport International Sports
Village,
Newport
NP19 4RA

T 01633 282911

www.cff.cymru

CANLLAWIAU DIOGELWCH DEILIADAETH

Rhydd-ddaliad	Yn gymwys i gael cyllid. Fel arfer, ni fyddai amodau Diogelwch Deiliadaeth ychwanegol yn berthnasol.
Prydles - dros 10 mlynedd	Yn gymwys i gael cyllid. Fel arfer, ni fyddai amodau Diogelwch Deiliadaeth ychwanegol yn berthnasol pan fydd o leiaf 10 mlynedd yn weddill ar y brydles.
Prydles - dan 10 mlynedd	Gellir ystyried darparu cyllid lle cyflwynir tystiolaeth ysgrifenedig sy'n dangos y bydd y brydles yn cael ei hymestyn i ddarparu o leiaf 10 mlynedd o ddeiliadaeth.
Trwydded - dros 10 mlynedd yn weddill	Yn gymwys i gael cyllid, yn amodol ar y canlynol: • Os terfynir trefniant y drwydded, rhaid i'r clwb hysbysu'r cyllidwr o fewn pum diwrnod gwaith. • Rhaid i'r clwb ddarparu manylion unrhyw safle adleoli arfaethedig. • Bydd unrhyw newid i'r safle yn gofyn am Adroddiad Asesu Cae Chwarae newydd gan yr Ymgynghorydd Caeau Chwarae Rhanbarthol (RPA).
Trefniant Ymddiriedolaeth / Cymdeithas Chwaraeon a Ddiogelir	Yn gymwys i gael cyllid, yn amodol ar gael cadarnhad ysgrifenedig gan yr ymddiriedolaeth lywodraethu, elusen neu gymdeithas chwaraeon sy'n dangos: • Bod y safle wedi'i ddiogelu'n gyfreithiol at ddibenion chwaraeon. • Hyd yr amddiffyniad neu'r trefniant hwnnw. • Tystiolaeth ysgrifenedig o fwriad yr ymddiriedolaeth / cymdeithas chwaraeon i sicrhau bod y clwb pêl-droed yn parhau i gael mynediad i'r cyfleuster am o leiaf 10 mlynedd.

Corff Sylfaen Pêl-droed Cymru
Parc y Ddraig,
Pentref Chwaraeon
Rhyngwladol Casnewydd,
Casnewydd
NP19 4RA

Cymru Football Foundation
Dragon Park,
Newport International Sports
Village,
Newport
NP19 4RA

T 01633 282911

www.cff.cymru

Cytundeb blynyddol / cytundeb llafar treigl	Ddim yn gymwys i gael cyllid. Nid yw'r trefniant hwn yn darparu digon o ddiogelwch deiliadaeth tymor hir i gyfiawnhau buddsoddiad.
Nid oes cytundeb ffurfiol yn ei le	Ddim yn gymwys i gael cyllid. Heb gytundeb ffurfiol, nid oes diogelwch daliadaeth amlwg ac ni ellir dyfarnu cyllid.
Cytundebau Ysgolion x Clybiau Pêl-droed	**Amodau y byddai angen eu bodloni ar gyfer clwb unigol sy'n defnyddio safle ysgol, rhaid i'r cais gael ei gyflwyno gan y clwb a'i gefnogi gan y canlynol:** • Llythyr gan yr ysgol yn cadarnhau bod yr offer yn eiddo i'r clwb ac, os bydd y clwb yn symud o'r safle, y bydd yr offer yn aros yn eiddo i'r clwb ac yn symud gyda nhw. • Amserlen o ddefnydd sy'n amlinellu defnydd yr ysgol a'r clwb o'r caeau chwarae. Dylai hyn ddangos bod y caeau glaswellt yn cael eu defnyddio am o leiaf 8 awr yr wythnos ar gyfartaledd. • Manylion clir ynghylch sut bydd y clwb yn cael gafael ar yr offer y tu allan i oriau gweithredu'r ysgol. • Llythyr o ymrwymiad gan yr ysgol yn cadarnhau ei bwriad i ganiatáu i'r clwb ddefnyddio'r cyfleuster am o leiaf 10 mlynedd. • Manylion y cynllun cynnal a chadw arfaethedig, gan gynnwys a fydd gwaith cynnal a chadw'n cael ei wneud gan yr ysgol neu'r clwb. Sylwer, os yw'r ysgol yn bwriadu gwneud gwaith cynnal a chadw, rhaid darparu tystiolaeth o gwrs Lefel 1 GMA wedi'i gwblhau, neu gymhwyster cyfatebol. • Tystiolaeth y bydd y clwb yn defnyddio'r cyfleusterau fwy nag unwaith yr wythnos / tystiolaeth y bydd mwy nag un tîm yn defnyddio'r cyfleusterau.

Corff Sylfaen Pêl-droed Cymru
Parc y Ddraig,
Pentref Chwaraeon
Rhyngwladol Casnewydd,
Casnewydd
NP19 4RA

Cymru Football Foundation
Dragon Park,
Newport International Sports
Village,
Newport
NP19 4RA

T 01633 282911

www.cff.cymru

	Amodau ar gyfer safleoedd aml-glwb neu hyb: • Amserlen yn dangos holl ddefnydd yr ysgol a'r clwb o'r caeau chwarae. • Rhestr o'r holl glybiau a fydd yn elwa o'r offer a ariennir. • Cadarnhad ysgrifenedig gan yr ysgol y bydd y clybiau perthnasol yn parhau i gael mynediad am o leiaf 10 mlynedd. • Esboniad clir o sut bydd clybiau'n cael gafael ar yr offer y tu allan i oriau ysgol. • Manylion o bwy sy'n gyfrifol am gynnal a chadw'r caeau chwarae a rheoli'r offer. • Tystiolaeth o drefniadau storio diogel a chyfrifoldeb am yswiriant. • Ymrwymiad i roi gwybod i'r cyllidwr o fewn pum diwrnod gwaith am unrhyw ostyngiad sylweddol neu os bydd mynediad clybiau cymunedol yn dod i ben. • Tystiolaeth bod y trefniadau mynediad yn deg ac nad oes gan unrhyw grŵp defnyddwyr unigol reolaeth lwyr dros yr offer a ariennir.